



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE



Coronafeirws (COVID-19)

Cael brechlyn




Dogfen Hawdd ei Darllen gan Lywodraeth Cymru yw hon
Cyhoeddwyd Ionawr 2021

Cynnwys:

Beth yw COVID-19	1
Beth yw brechlyn	1
Cadw pobl yn ddiogel	3
Sut ydw i'n cael brechlyn	3
Pwy fydd y cyntaf i gael y brechlyn	4


Beth yw COVID-19?



Mae COVID-19 yn salwch newydd. Mae llawer o bobl yn ei alw'n coronafeirws.

Mae'n gallu effeithio ar eich ysgyfaint ac anadlu.

Mae bywyd pawb wedi newid oherwydd coronafeirws.



Mae'r sefyllfa'n ddrwg yng Nghymru. Mae llawer o bobl wedi dal coronafeirws. A nawr mae math newydd o coronafeirws, sy'n haws ei ddal a'i basio i bobl eraill.

Rhaid i bawb aros gartref eto i gadw'n ddiogel, achub bywydau a diogelu'r Gwasanaeth Iechyd.



Ond mae gobaith.

Rydym yn gallu defnyddio brechlynnau newydd nawr.

Beth yw brechlyn?



Mae brechlyn yn stopio pobl fynd yn sâl gyda chlefydau fel coronafeirws.

Os bydd digon o bobl yn cael y brechlyn bydd coronafeirws yn dechrau dod o dan reolaeth a gallwn fynd yn ôl i fywyd normal.



Ond bydd yn cymryd amser i roi brechlyn i bawb.

Y bobl gyntaf i gael y brechlyn yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fynd yn sâl iawn gyda coronafeirws.




Dyma'r bobl fydd yn cael y brechlyn gyntaf:

- pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal
- pobl dros 80 oed
- gweithwyr iechyd a gofal sy'n gweithio'n agos gyda'r bobl sydd wedi dal coronafeirws.



Hyd nes y bydd y rhan fwyaf o bobl wedi cael y brechlyn, rhaid i ni i gyd ddal ati i ddilyn y rheolau (<https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-4>) a chadw ein hunain ac eraill yn ddiogel.



Cadw pobl yn ddiogel

- rhaid cwrdd â cyn lleied o bobl â phosibl
- golchi dwylo'n aml
- gwisgo masg
- aros 2 fetr (3 cham) oddi wrth eraill.

Sut ydw i'n cael brechlyn?

Pan ddaw eich tro chi, cewch alwad ffôn neu lythyr yn eich gwahodd i gael y brechlyn.



Dyma'r GIG yn ffonio i wneud apwyntiad brechlyn Covid-19

Cewch ddewis cael y brechlyn neu beidio.

Cewch wybodaeth i'ch helpu i benderfynu.



Os ydych eisiau'r brechlyn, cewch wybod ble i fynd.

Eich doctor neu ganolfan ger eich cartref fydd yn rhoi'r brechlyn i chi.



Byddwch yn cael dau ddos. Bydd rhaid i chi fynd yn ôl i gael eich ail ddos o fewn 3 mis. Bydd eich doctor neu ysbyty yn cysylltu â chi pan ddaw eich tro i gael eich ail ddos.



Bydd y dos cynaf o'r brechlyn yn eich amddiffyn rhywfaint.

Byddwch yn cael cerdyn wrth gael eich brechlyn. Bydd y cerdyn yn dangos pryd mae'r ail ddos a hefyd bydd yn dangos pwy i'w ffonio os yw'r brechlyn yn eich gwneud yn sâl.

Mae'r brechlyn am ddim. Peidiwch byth â rhoi arian am y brechlyn.



Dyma'r GIG yn ffonio i wneud apwyntiad brechlyn Covid-19

Mae eich doctor ac ysbyty yn brysur iawn ar hyn o bryd. Byddan nhw'n cysylltu â chi pan ddaw eich tro i gael y brechlyn.

Cewch ragor o wybodaeth yma:

<https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/ynglyn-ar-brechlyn/>

Pwy fydd y cyntaf i gael y brechlyn?

Y bobl gyntaf i gael y brechlyn yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fynd yn sâl iawn gyda coronafeirws.

1. Yn gyntaf, byddwn yn rhoi'r brechlyn i'r bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, a'u gofalwyr





2. Pawb dros 80 oed a gweithwyr iechyd a gofal sy'n trin ac yn gofalu'n agos am y bobl sy'n sâl gyda'r coronafeirws
3. Pawb dros 75 oed
4. Pawb dros 70 oed a phobl sy'n debygol o fynd yn sâl iawn os ydynt yn dal coronafeirws (pobl sy'n Gwarchod eu Hunain)
5. Pawb dros 65 oed
6. Pawb 16 – 64 oed sydd â rhai problemau iechyd*
7. Pawb dros 60 oed
8. Pawb dros 55 oed
9. Pawb dros 50 oed

Rydym yn meddwl y bydd hyn yn stopio tua 99% o'r marwolaethau coronafeirws.

***Problemau iechyd:**

- * Clefyd hirdymor ar yr ysgyfaint
- * Cefyd calon cronig (a chlefyd fasnwlaid)
- * Clefyd cronig yn yr arenau
- * Clefyd cronig yn yr iau/afu
- * Clefyd niwrolegol cronig gan gynnwys epilepsi
- * Syndrom Down
- * Anabledd dysgu difrifol
- * Diabetes

- * Pobl sydd wedi cael organ newydd, mêt yr esgyrn neu fôn-gelloedd
- * Pobl gyda rhai mathau o ganser
- * Imiwnedd gwan oherwydd clefyd neu driniaeth
- * Asplenia a chamweithrediad y dduwg
- * Gordewdra
- * Salwch meddwl difrifol

Rydym yn aros am ragor o wybodaeth gan arbenigwyr i'n helpu i wybod pryd i roi'r brechlyn i bawb arall.

Ond yn gyntaf rhaid i ni ganolbwyntio ar y bobl sydd fwyaf tebygol o fynd yn sâl iawn gyda coronafeirws.